CYFARFOD CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL
DE-ORLLEWIN CYMRU

DYDD IAU 9FED MAI 2002

Presennol:

Howell Beaton	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot .
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Sue Martin	Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Andy Rees.	Uned Gefnogi Polisi Gwastraff C.C.C.
Bryan Graham	Dinas a Sir Abertawe.
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe.
Carol A Williams.	Cyngor Sir Benfro. (Cynllunio)
	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cynllunio).
Gareth Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Julie Tate	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
Shane Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Geoff White	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot .
John Flower	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot .

1. Ymddiheuriadau.

Huw Roberts	Cyngor Sir Benfro.
Niall Reynolds	Asiantaeth yr Amgylchedd

2. Cynigion CBSCNPT i gyflawni'i rwymedigaethau fel prif awdurdod ar gyfer yr Asesiad a'r Cynllun Gwastraff.

Y cynnig yw i GBSCNPT benodi SLR, prif ymgynghorwyr gwastraff, i gasglu a dadansoddi data ynghylch gwastraff yn unol â'r NCT mewn cyd-weithrediad ag Awdurdodau Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Diwydiant Gwastraff a ffynonellau eraill (Cam 1), i chwilio am opsiynau, rhagolygon ac ati, a chynhyrchu asesiad gwastraff (Cam 2), ac i gynorthwyo gyda pharatoi'r Cynllun Gwastraff (Cam 3). Yn ogystal, byddai CBSCNPT yn darparu gwybodaeth dechnegol a chynllunio arbennig i gynnal y broses a'r asesiad yn ogystal â darparu cymorth gweinyddol.

Dosbarthwyd darn o lythyr SLR sy'n amlinellu'r cynigion ynghyd â'r 'Templed' ar gyfer cynhyrchu'r strategaeth a gynhyrchwyd gan Uned Cefnogi Polisi Gwastraff C.C.C. sydd, gyda'r NCT, yn ffurfio sylfaen y cynnig.

Mynegwyd pryderon ynghylch lefel yr ymrwymiad y bydd ei angen gan Awdurdodau Lleol. Cytunwyd yng Ngham 1 y byddai cydweithrediad o ran darparu data diweddaraf. Roedd SLR i nodi'r angen am ymchwil sylweddol i lenwi'r bylchau mewn data. Byddai'r ymchwil naill ai'n cael ei hariannu gan C.C.C. ar gyfer Cymru gyfan, neu byddai angen amcangyfrifon i ddelio â'r bylchau. Ar ôl y camau hyn, roedd yn anochel y gallai'r Awdurdod Lleol orfod ymrwymo ei hunan yn fwy o ran adnoddau, yn bennaf cynllunio.

Cytunwyd ar y cynigion.

Gweithrediadau.

Any Rees i ddarparu fersiwn electronig o astudiaeth RTAB y Gogledd-orllewin CBSCNPT i benodi SLR.

3. Cynigion ar gyfer y Grŵp Technegol.

Cytunwyd y dylai'r Grŵp Technegol ar gyfer Cam 1 gynnwys:-

a. 1 o bob un (8) o'r awdurdodau cynllunio
b. 1 o bob un (6) o'r awdurdodau gwastraff
c. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
d. Uned Gefnogi Cynllunio Polisi a Gwastraff C.C.C.
e. Awdurdod Datblygu Cymru
f. WRAP
g. Fforwm Amgylcheddol Rhanbarthol D-o C (GW i gadarnhau ffiniau) mae'r ffiniau'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr (Dwyrain) a Cheredigion (Canol), felly byddant yn cael eu hychwanegu.
h. CBI (Cymru)
i. Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
j. Cylch.

Cytunwyd hefyd i adolygu hyn erbyn Cam 2, er mwyn i garfannau pwyso fel CPRW a FOE chwarae rhan yn y broses, naill ai'n rhan o'r Grŵp Technegol neu'n rhan o ymarfer ymgynghori ehangach. Cytunwyd y cynhelir cyfarfod cyntaf y Grŵp Technegol am 10.30 ar 31ain Mai ym Mhenllergaer, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ddiwedd Camau 1 a 2 hefyd, yn ogystal â chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

Gweithrediadau.

CBSCNPT i drefnu cyfarfod ar 31ain.
CBSCNPT i ysgrifennu at garfannau pwyso i'w hysbysu i gymryd rhan yn ddiweddarach.
CBSCNPT i siarad â Dick Crawshaw ynghylch: ffiniau a sut i ddelio â bylchau.

4. Trefniadau Rheoli.

Trafodwyd nifer o opsiynau a chytunwyd y byddai angen Grŵp Rheoli sy'n cynnwys yr holl awdurdodau cynllunio ar gyfer rhannau olaf y cynllun (erbyn Cam 3).

Ar gyfer Cam 1, cytunwyd ar Grŵp Rheoli a oedd yn cynnwys CBSCNPT (GW a HB), Asiantaeth yr Amgylchedd (JT) ac Uned Bolisi Gwastraff C.C.C. (AR), ond bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar gyfer Cam 2. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym Mhenllergaer am 10.00am ar 23ain Mai gyda SLR. Bydd sefydliadau eraill yn cael eu cyfethol i'r Grŵp fel y bo angen.

5. Cyfarfod Fforwm yr Aelodau.

Cytunwyd ar gyfarfod cyntaf i drafod y Cyfansoddiad, Gwaith Technegol, amserlen gwaith/cerrig milltir ym Mehefin.

CBSCNPT i gysylltu â'r Cyng. Palmer (Caerfyrddin) ynghylch: dyddiadau posibl, trefnu cyfarfod; ac i'w hysbysu ar y sefyllfa bresennol.

6. Unrhyw fusnes arall.

a) Y Sefyllfa bresennol yn Ne-ddwyrain a Gogledd Cymru. Bu Sue Martin yn hysbysu pawb bod y De-ddwyrain wedi'i sefydlu gyda Pat Mears (Caerffili) yn arwain, a Barry Hankey yn gwneud y gwaith.

Yng Ngogledd Cymru, byddai cyfarfod yr wythnos nesaf (gobeithio) yn datrys y mater ynghylch yr awdurdod arweiniol. Unwaith bod hwnnw wedi'i ddatrys, cynhelid cyfarfod cyd-drefnu mor gynted â phosibl.

b) Gweithredu'n Amgylcheddol. Bu Shane Evans yn tynnu sylw pawb at rifyn Mai 2002, a oedd yn cynnwys erthygl ar faterion gwastraff. Mae ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd.